



Marwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu

Ystadegau ar gyfer
Cymru a Lloegr 2025/26

Cydnabyddiaethau

Arweiniodd Rachael Toon a Melanie O'Connor y gwaith o gynhyrchu a dadansoddi'r adroddiad hwn, gyda chefnogaeth gan Ed Stevens yn y tîm ymchwil yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Rydym yn diolch i gydweithwyr yn IOPC a helpodd i gasglu a gwirio'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn neu i gefnogi ei gyhoeddiad. Hoffem hefyd ddiolch i swyddogion a staff heddluoedd ledled Cymru a Lloegr a roddodd wybodaeth ac a ymatebodd i'n ymholiadau.

Manylion cyswllt

Anfonwch e-bost at research@policeconduct.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad hwn.

Ystadegau gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007. Pan dynodir ystadegau yn Ystadegau Gwladol, mae'n ofyniad statudol bod y [Cod Ymarfer](#) yn cael ei ddilyn.

Mae'r dynodiad hwn yn golygu bod yr ystadegau:

- yn bodloni anghenion y defnyddwyr a nodwyd
- wedi'u hesbonio'n dda ac yn hawdd i'w cyrraedd
- yn cael eu cynhyrchu yn ôl dulliau cadarn
- yn cael eu rheoli'n ddiduedd ac yn wrthrychol er budd y cyhoedd

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
2. Canfyddiadau cyffredinol	7
3. Marwolaethau traffig ffyrdd	11
4. Saethiadau marwol	14
5. Marwolaethau yn y ddalfa heddlu neu yn dilyn hynny.....	15
6. Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu	24
7. Marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu: ymchwiliadau annibynnol yn unig	26
8. Nodyn cefndirol.....	34
A. Atodiad A: tablau ychwanegol	37

Rhestr o dablau a ffigurau

Tabl 2.1	Digwyddiadau yn ôl math o farwolaeth a math o ymchwiliad, 2025/26
Tabl 2.2	Marwolaethau yn ôl math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2015/16 i 2025/26
Ffigur 2.1	Digwyddiadau yn ôl math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2015/16 i 2025/26
Tabl 3.1	Math o farwolaethau traffig ffyrdd, 2015/16 i 2025/26
Tabl 3.2	Math o ddigwyddiad traffig ffordd, 2015/16 i 2025/26
Tabl 5.1	Marwolaethau yn neu yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu: rheswm dros gadw, 2025/26
Tabl 6.1	Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn cael eu cadw gan yr heddlu: rheswm dros gadw, 2025/26
Tabl 7.1	Marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu: rheswm dros y cyswllt, 2025/26
Tabl A1	Digwyddiadau yn ôl math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2015/16 i 2025/26
Tabl A2	Math o farwolaeth yn ôl rhywedd, 2025/26
Tabl A3	Math o farwolaeth yn ôl grŵp oedran, 2025/26
Tabl A4	Math o farwolaeth yn ôl ethnigrwydd, 2025/26
Tabl A5	Math o farwolaeth yn ôl awdurdod priodol, 2025/26

1

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ffigurau ar farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu a ddigwyddodd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'n darparu set bendant o ffigurau ar gyfer Cymru a Lloegr, a throsolwg o natur ac amgylchiadau'r marwolaethau hyn.

Y cyhoeddiad hwn yw'r ail ar hugain yn y gyfres hon o adroddiadau ystadegol, a gyhoeddir yn flynyddol gan IOPC.

Mae IOPC yn archwilio amgylchiadau'r holl farwolaethau a gyfeirir atom i gynhyrchu'r ystadegau hyn. Rydym yn penderfynu a yw'r marwolaethau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn yr adroddiad hwn o dan un o'r categorïau canlynol:

- marwolaethau traffig ffyrdd
- saethiadau marwol
- marwolaethau yn y ddalfa heddlu neu yn dilyn hynny
- hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu
- marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu a oedd o dan ymchwiliad annibynnol

Mae Blwch A yn rhoi diffiniad ar gyfer pob un o'r categorïau hyn.

Gweler y [ddogfen ganllaw](#) ar wefan IOPC am ddiffiniadau manwl.

Mae rhagor o wybodaeth am yr adroddiad i'w gael yn y nodyn cefndir ar dudalen 33.

Blwch A: Diffiniadau o gategorïau marwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu

Gweler y [ddogfen ganllaw](#) ar ein gwefan am ddiffiniadau manwl a gwybodaeth am sut mae achosion marwolaeth yn cael eu categorioeddio a'u cofnodi.

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'heddlu' yn cynnwys sifiliaid heddlu, swyddogion heddlu a staff o'r holl sefydliadau o dan awdurdodaeth IOPC. [Gweler nodyn cefndir 2 ar dudalen 33 am ragor o wybodaeth.](#) Nid yw marwolaethau personél yr heddlu na digwyddiadau sy'n

cynnwys personél yr heddlu oddi ar ddyletswydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau yn yr adroddiad hwn.

Mae marwolaethau traffig ffyrdd yn cynnwys marwolaethau modurwyr, beicwyr neu gerddwyr sy'n deillio o ddilyniadau gan yr heddlu, cerbydau heddlu yn ymateb i alwadau brys a gweithgaredd traffig arall yr heddlu.

Nid yw hyn yn cynnwys marwolaethau yn dilyn

digwyddiad traffig ffordd (RTI) lle mynychodd yr heddlu yn syth ar ôl y digwyddiad fel gwasanaeth brys.

Mae saethiadau marwol yn cynnwys marwolaethau lle mae swyddogion heddlu wedi tanio'r ergyd farwol gan ddefnyddio arf tân confensiynol.

Mae marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu yn dilyn hynny yn cynnwys marwolaethau sy'n digwydd tra bod person yn cael ei arestio neu ei gymryd i'r ddalfa.

Mae'n cynnwys marwolaethau pobl a gafodd eu harestio neu eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu o dan *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983*. Efallai bod y farwolaeth wedi digwydd ar safle heddlu, preifat neu feddygol, mewn man cyhoeddus neu mewn cerbyd heddlu neu gerbyd arall.

Mae hyn yn cynnwys marwolaethau sy'n digwydd:

- yn ystod neu ar ôl bod yn nalfa'r heddlu lle digwyddodd anafiadau a gyfrannodd at y farwolaeth yn ystod y cyfnod cadw
- yn yr ysbyty (neu safle meddygol arall) neu ar y ffordd i'r ysbyty (neu safle meddygol arall) yn ystod neu ar ôl trosglwyddo o leoliad yr arestio neu ddalfa'r heddlu
- o ganlyniad i anafiadau neu broblemau meddygol eraill a nodwyd neu a ddatblygwyd tra bod person yn y ddalfa
- tra bod person yn y ddalfa heddlu ar ôl cael ei gadw o dan Adran 136 o *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* neu ddeddfwriaeth gysylltiedig arall

Nid yw hyn yn cynnwys:

- hunanladdiadau sy'n digwydd ar ôl i berson gael ei ryddhau o ddalfa'r heddlu
- marwolaethau sy'n digwydd lle mae'r heddlu'n cael eu galw i helpu staff meddygol i atal pobl sydd heb gael eu harestio

Mae hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu yn cynnwys hunanladdiadau ymddangosiadol sy'n digwydd o fewn dau ddiwrnod i'w rhyddhau o ddalfa'r heddlu. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys hunanladdiadau ymddangosiadol sy'n digwydd y tu hwnt i ddau ddiwrnod ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa, lle gall yr amser a dreuliwyd yn y ddalfa fod yn berthnasol i'r farwolaeth.

Mae marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu yn cynnwys marwolaethau sy'n dilyn cyswllt â'r heddlu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, oedd ddim yn cynnwys arestio na chadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* ac a oedd yn destun ymchwiliad annibynnol.

- Bydd IOPC yn penderfynu cynnal ymchwiliad annibynnol ar gyfer y digwyddiadau mwyaf difrifol sy'n achosi'r lefel uchaf o bryder cyhoeddus, sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar gymunedau, neu sydd â goblygiadau difrifol i enw da'r gwasanaeth heddlu. Ers 2010/11, dim ond marwolaethau lle cynhaliwyd ymchwiliad annibynnol, neu lle mae un yn parhau, sydd wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Mae hyn er mwyn gwella cysondeb wrth adrodd ar y marwolaethau hyn.

Gall hyn gynnwys marwolaethau sy'n digwydd:

- ar ôl i'r heddlu gael eu galw i fynychu digwyddiad domestig sy'n arwain at farwolaeth
- tra bod person yn ceisio osgoi cael ei arestio, gan gynnwys achosion lle mae'r farwolaeth yn hunan-achosedig
- pan fydd yr heddlu'n mynychu sefyllfa gwarchae, gan gynnwys lle mae person yn lladd ei hun neu rywun arall
- ar ôl cysylltu â'r heddlu ynglŷn â phryderon ynghylch lles person ac mae pryder ynghylch natur ymateb yr heddlu.

2

Canfyddiadau cyffredinol

Yn ystod 2025/26, roedd:

- 15 o farwolaethau traffig ffyrdd
- 4 saethiad marwol gan yr heddlu
- 27 o farwolaethau yn y ddalfa heddlu neu yn dilyn hynny
- 67 o hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu
- 63 o farwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu a gafodd eu hymchwilio'n annibynnol gan IOPC

Darperir gwybodaeth ddemograffig am bobl a fu farw yn y penodau canlynol, ynghyd â manylion am amgylchiadau eu marwolaeth a chrynodeb o ddata tueddiadau. Mae'r atodiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth, fel oedran, rhywedd ac ethnigrwydd y rhai a fu farw, a gwybodaeth am yr heddlu neu'r awdurdod priodol dan sylw. (Fel arfer, prif swyddog neu gomisiynydd heddlu a throseddu yw'r awdurdod priodol.)

Mae rhai o'r ymchwiliadau i'r marwolaethau a gofnodwyd yn yr adroddiad hwn yn gyfredol ar adeg cyhoeddi. Mae manylion am natur ac amgylchiadau'r achosion hyn yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar adeg y dadansoddiad.

Roedd Cymru a Lloegr dan glo oherwydd pandemig y coronafeirws am ran fawr o 2020/21. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosib dweud yn sicr pa effaith a gafodd hyn ar nifer neu fathau'r rhyngweithiadau a gafodd aelodau'r cyhoedd

gyda'r heddlu. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data o 2020/21 â blynyddoedd blaenorol a dilynol.

Ymchwiliadau

Pan gawn wybod am farwolaeth, rydym yn ystyried amgylchiadau'r achos ac yn penderfynu a oes angen ymchwiliad. Os ydym yn penderfynu fod angen ymchwiliad, yna byddwn yn dewis y dull ymchwilio. Gallwn benderfynu ymchwilio i'r achos yn annibynnol, cyfarwyddo llw heddlu i ymchwilio i'r achos o dan reolaeth IOPC, neu benderfynu y dylai'r heddlu ymchwilio i'r achos yn lleol.

Mae gan bob heddlu adran safonau proffesiynol (PSD) neu adran gyfatebol, sy'n goruchwyllo'r broses o ymdrin â chwynion a rhai materion ymddygiad. Mewn rhai amgylchiadau, rydym yn penderfynu mai'r PSD sydd yn y sefyllfa orau i ymchwilio i achos yn lleol.

Ers mis Chwefror 2020, nid oedd ymchwiliadau dan oruchwyliaeth a rheolaeth bellach ar gael fel dull ymchwilio. Crëwyd math newydd – 'ymchwiliad cyfeiriedig'. Mae ymchwiliadau cyfeiriedig yn digwydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth IOPC, ond maent yn defnyddio adnoddau'r heddlu.

Mae blwch B ar dudalen xx yn cynnwys disgrifiad o bob math o ymchwiliad.

Mae Tabl 2.1 yn dangos y math o ymchwiliad ar adeg y dadansoddiad ar gyfer pob digwyddiad yn cynnwys marwolaeth a gofnodwyd yn 2025/26. Mae'r ffigurau'n dangos nifer y digwyddiadau. Gall

digwyddiad sy'n arwain at un ymchwiliad gynnwys mwy nag un marwolaeth, felly gall cyfanswm y digwyddiadau ar gyfer rhai categorïau fod yn is na chyfanswm y marwolaethau a gyflwynir uchod. Yn 2025/26, ymchwiliodd IOPC i 103 o ddigwyddiadau yn annibynnol.

Nid yw Tabl 2.1 bellach yn cynnwys ffigurau ar gyfer ymchwiliadau dan oruchwyliaeth a rheolaeth gan fod yr holl farwolaethau yn yr adroddiad hwn wedi digwydd o fis Ebrill 2025 ymlaen. Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau cyfeiriedig yn unrhyw un o'r categorïau marwolaeth.

Tabl 2.1 Digwyddiadau yn ôl math o farwolaeth a math o ymchwiliad, 2025/26

Math o ymchwiliad	Digwyddiad traffig ffordd	Saethiadau marwol	Marwolaethau yn y ddalfa heddlu neu yn dilyn hynny	Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu	Marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu*
Annibynnol	12	3	25	1	62
Cyfarwyddedig	0	0	0	0	0
Lleol	0	0	2	15	0
Yn ôl i'r llu	3	0	0	51	0
Cyfanswm y digwyddiadau	15	3	27	67	62

Nodyn: Math o ymchwiliad fel y'i cofnodwyd ar system achosion yr IOPC ar adeg y dadansoddiad.
*Dim ond achosion sy'n destun ymchwiliad annibynnol sydd wedi'u cynnwys yn y categori hwn.

Tueddiadau


Mae'r ffigurau yn Nhabl 2.2 yn dangos nifer y marwolaethau ar draws y gwahanol categorïau ers 2015/16. Ni fyddai'n ystyrlon cynhyrchu dadansoddiad o dueddiadau ar draws pob un o'r pum categori.

Mae hyn oherwydd yr amrywiad eang yn yr amgylchiadau a newidiadau i sut mae'r categori 'marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu' yn cael ei ddiffinio.

Tabl 2.2 Marwolaethau yn ôl math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2015/16 i 2025/26

Categori	Marwolaethau										
	Blwyddyn Ariannol										
	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25	25/26
Marwolaethau traffig ffyrdd	21	32	29	42	24	25	42~	28	32	26	15
Saethiadau marwol	3	6	4	3	3	1	2	3	2	2	4
Marwolaethau yn y ddalfa heddlu neu yn dilyn hynny	14	14	23	17	18	19	12~	23	25	18~	27
Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn y ddalfa	61	56	57	63	54	55	57	54	68	61~	67
Marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu*	106**	131	178	156	107	97	113	92~	63~	53~	63

* Newid yn y diffiniad o 'farwolaethau eraill yn dilyn cyswllt' yn 2010/11 i gynnwys achosion sy'n destun ymchwiliad annibynnol yn unig.
** Ehangu adnoddau ymchwiliol a chapasiti IOPC i gynnal ymchwiliadau mwy annibynnol i faterion difrifol a sensitif. ** Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar nifer y 'marwolaethau cyswllt eraill' sy'n cael eu hadrodd.
~ Mae'r tabl hwn yn cyflwyno'r set fwyaf cyfredol o ffigurau ar gyfer y categorïau hyn. Nodir unrhyw newidiadau i ddata a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Ffigur 2.1 Digwyddiadau yn ôl math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2015/16 i 2025/26

Mae nifer y **digwyddiadau traffig ffyrdd marwol (RTIs)** wedi gostwng eleni, gyda 15 o ddigwyddiadau, o'i gymharu â 25 y llynedd. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd o 26 o ddigwyddiadau a gofnodwyd dros y cyfnod o 11 mlynedd ers 2015/16. Mae'r ffigurau hyn yn amodol ar amrywiadau ac, felly, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn.

Eleni bu **pedwar saethiad marwol gan yr heddlu**, o'i gymharu â dau a gofnodwyd y llynedd. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd o dri saethiad marwol a gofnodwyd ers 2015/16.

Mae nifer y **marwolaethau yn y ddalfa neu yn dilyn hynny** wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf o 18 i 27. Dros amser, bu rhai amrywiadau yn y categori hwn, gyda chynnydd nodedig wedi'i gofnodi yn 2014/15, 2017/18 a 2022/23. Mae ffigur 2025/26 yn uwch na'r cyfartaledd o 19 o farwolaethau dros y cyfnod o 11 mlynedd.

67 oedd nifer yr **hunanladdiadau ymddangosiadol a gofnodwyd yn dilyn cyfnod yn y ddalfa**, yn uwch na'r 61 o farwolaethau a gofnodwyd y llynedd. Mae nifer y marwolaethau yn y categori hwn yn parhau i fod yn uwch na'r nifer cyfartalog a gofnodwyd dros y blyneddau cyn 2012/13, pan oedd cynnydd nodedig. Mae'r nifer yn uwch na'r cyfartaledd o

59 o farwolaethau a gofnodwyd dros y cyfnod o 11 mlynedd. Mae adrodd am y marwolaethau hyn yn dibynnu ar heddluoedd yn gwneud y cysylltiad rhwng hunanladdiad ymddangosiadol person a'u bod nhw wedi bod yn y ddalfa'n ddiweddar. Mae'n bosib bod y cynnydd cyffredinol yn y marwolaethau hyn dros y cyfnod ers 2014/15 wedi'i ddylanwadu gan well dulliau o adnabod ac atgyfeirio achosion o'r fath.

Nid yw'r categori 'marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu' wedi'i gynnwys yn Ffigur 2.1. Mae cynnwys marwolaeth yn y categori hwn yn dibynnu ar a ydym yn penderfynu cynnal ymchwiliad annibynnol i'r amgylchiadau o'i gwmpas. Gall y meini prawf ar gyfer gwneud y penderfyniad hwn amrywio dros amser – er enghraifft, mewn ymateb i bryderon y cyhoedd a'r gymuned. Yn 2015/16 cynyddodd ein gallu i gynnal ymchwiliadau annibynnol, ac fe gafodd hyn effaith uniongyrchol ar nifer y marwolaethau a adroddwyd yn y categori hwn. (Gweler ein [cynllun Corfforaethol 2015/18](#) a'n [cynllun Strategol 2018/22](#) am ragor o wybodaeth.) Mae hyn yn golygu na fyddai dadansoddiad tueddiadau o farwolaethau a gofnodwyd yn y categori hwn yn ystyrlon.

Darperir ffigurau ar bob digwyddiad marwol (yn wahanol i farwolaethau) yn Nhabl A1 yn yr atodiad. Mae'r atodiad hefyd yn cynnwys data ar:

- ethnigrwydd
 - oedran
 - rhywedd
 - y llu heddlu
- categori marwolaeth

Rydym wedi cyhoeddi ystadegau blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu ers 2004/05. Mae adroddiadau blaenorol a data cyfres amser ar gael [yma](#).

Blwch B Mathau o ymchwiliad

Cynhelir **ymchwiliadau annibynnol** gan ymchwilwyr IOPC ei hun. Mae gan ymchwilwyr IOPC holl bwerau'r heddlu mewn ymchwiliad annibynnol.

Ymchwiliadau cyfeiriedig yw ymchwiliadau IOPC a gynhelir gan ddefnyddio adnoddau'r heddlu. Mae IOPC yn gosod y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad ac yn cyfarwyddo cwrs yr ymholiadau. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, mae ymchwilydd yr heddlu yn cyflwyno adroddiad yr ymchwiliad i IOPC i'w adolygu.

Cynhelir **ymchwiliadau lleol** gan yr heddlu. Mewn achosion o farwolaeth ac anafiadau difrifol, mae'r heddlu'n anfon yr adroddiad at IOPC i'w adolygu ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Mae atgyfeirio'n ôl i'r heddlu yn dynodi achosion lle mae IOPC wedi adolygu'r amgylchiadau ac wedi dychwelyd y mater yn ôl i'r heddlu i ddelio ag ef fel y mae'n ei ystyried yn briodol.

3

Marwolaethau traffig ffyrdd

Demograffeg

Yn 2025/26, roedd 15 o ddigwyddiadau traffig ffyrdd marwol yn gysylltiedig â'r heddlu (RTIs), gan arwain at 15 o farwolaethau. O'r rhai a fu farw, roedd 12 yn ddynion a 3 yn fenywod. Roedd un ar ddeg o bobl yn Wyn, roedd un person yn Ddu, roedd dau berson o ethnigrwydd cymysg ac roedd un person o grŵp ethnig arall.

Doedd neb o dan 18 oed. Roedd pedwar o bobl a fu farw rhwng 18 a 30 oed, ac roedd yr hynaf yn 84 oed. Yr oedran cyfartalog oedd 41 oed. Mae'r oedran cyfartalog yn gostwng i 36 oed os oedd y person wedi marw yn yrrwr neu'n deithiwr mewn cerbyd a oedd yn cael ei ddilyn neu'n ffoi. Mae'n cynyddu i 54 mlynedd os oedd y person wedi marw yn gerddwr, yn feiciwr, neu'n yrrwr neu'n deithiwr mewn cerbyd a gafodd ei daro gan yr heddlu neu'r cerbyd a oedd yn cael ei ddilyn neu'n ffoi.

Amgylchiadau marwolaeth

Caiff digwyddiadau eu categorio fel 'cysylltiedig â dilyn' os oeddent yn cynnwys dilyn, neu sefyllfaoedd lle mae swyddogion wedi dechrau 'dilyn' cerbyd amheus. Ni fyddai'r holl ddigwyddiadau hyn wedi mynd i gyfnod dilyn swyddogol fel y'i diffinnir yn yr Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ar ddilyniadau'r heddlu. (Gweler [Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig Coleg Plismona \(2015\) ar ddilyniadau'r heddlu](#).)

Mae digwyddiadau lle bu gwrthdrawiad yn ymwneud â cherbyd a gafodd ei ddilyn yn ddiweddar gan yr heddlu, ond lle roedd yr heddlu wedi colli golwg ar y cerbyd, wedi'u cynnwys. Mae digwyddiadau lle roedd yr heddlu'n gyrru i gyfeiriad cerbyd, cyn cael caniatâd i ddilyn, hefyd wedi'u cynnwys fel digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dilyn.

Cysylltiedig â dilyn

Bu un ar ddeg o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â dilyn gan yr heddlu, a arweiniodd at un ar ddeg o farwolaethau. O'r marwolaethau hyn:

- Chwecwch o bobl oedd gyrrwyr y cerbyd a oedd yn cael ei ddilyn gan yr heddlu pan gafodd y gwrthdrawiad.
- Roedd dau o bobl yn deithwyr yn y car a oedd yn cael ei ddilyn gan yr heddlu.
- Roedd un person yn feiciwr moped anghysylltiedig, a gafodd ei daro gan y car a oedd yn cael ei ddilyn.
- Roedd dau o bobl yn gerddwyr a gafodd eu taro gan y car a oedd yn cael ei ddilyn gan yr heddlu.

Ymchwiliodd IOPC yn annibynnol i ddeg o'r digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r dilyn. Cyfeiriwyd y digwyddiad arall yn ôl i'r heddlu perthnasol i ddelio ag ef fel y gwelent yn briodol.

Cysylltiedig ag ymateb brys

Mae'r categori hwn yn cynnwys pob digwyddiad sy'n cynnwys cerbyd heddlu sy'n ymateb i gais am gymorth brys. Digwyddodd dau ddigwyddiad sy'n gysylltiedig ag ymateb brys yn 2025/26 gan arwain at ddau farwolaeth. Mae'r ddau ddigwyddiad hyn yn cael eu hymchwilio'n annibynnol.

Mae'r nifer hwn wedi gostwng o'r pum digwyddiad a'r pum marwolaeth a gofnodwyd y llynedd. Mae'r ffigurau ar gyfer eleni yn is na'r cyfartaledd o dri digwyddiad a marwolaeth sy'n gysylltiedig ag ymateb i argyfwng a gofnodwyd dros y cyfnod o 11 mlynedd ers 2015/16.

Roedd y ddau farwolaeth hyn yn cynnwys cerbydau heddlu yn gwrthdaro â cherddwyr wrth ddefnyddio offer rhybuddio brys. Amgylchiadau'r ddau ddigwyddiad hyn oedd:

- Bu swyddogion mewn car heddlu wedi'i farcio mewn gwrthdrawiad â cherddwr wrth ymateb i alwad frys barhaus ynghylch digwyddiad domestig.
- Gwrthdrawodd fan heddlu a oedd yn cludo nifer o swyddogion â cherddwr. Roedd y swyddogion wedi cael eu neilltuo i fynychu digwyddiad trefn gyhoeddus

Digwyddiadau traffig heddlu eraill

Mae'r categori hwn yn cynnwys RTIs na ddigwyddodd yn ystod gweithgaredd sy'n gysylltiedig â dilyn nac ymateb brys. Bu dau ddigwyddiad yn 2025/26 a arweiniodd at ddau farwolaeth. Cyfeiriwyd y ddau ddigwyddiad yn ôl at yr heddlu perthnasol i ddelio â nhw fel y gwelent yn briodol.

O'r ddau ddigwyddiad hyn, digwyddodd y ddau pan ymddangosodd cerbyd i ymateb i bresenoldeb yr heddlu:

- Roedd swyddog mewn cerbyd wedi'i farcio gyda goleuadau glas a seirenau wedi'u actifadu yn ymateb i adroddiad o aflonyddwch. Gwelodd y swyddog feic modur o'i flaen yn cynyddu cyflymder ac yn goddiweddyd cerbydau eraill. Cysylltodd y swyddog ag ystafell reoli'r heddlu ac adroddodd eu bod

yn credu bod y beiciwr yn meddwl ei fod yn cael cyfarwyddiadau i stopio, ac o ganlyniad roedd wedi gyrru i ffwrdd a peidiodd â stopio. Cynghorodd y swyddog na fyddent yn mynd ar ôl y beic modur a pharhau at y digwyddiad gwreiddiol. Arhoson nhw gryn bellter y tu ôl i'r beic modur a chollon nhw olwg arno yn fuan wedyn. Ychydig yn ddiweddarach, derbyniodd yr heddlu adroddiad am wrthdrawiad rhwng beic modur a cherbyd llonydd mewn lleoliad cyfagos. Cadarnhawyd yn ddiweddarach mai'r un beic modur oedd hwn. Aed â'r beiciwr i'r ysbyty lle bu farw'n ddiweddarach. Fe wnaethon ni ddychwelyd yr achos i'r heddlu i ddelio ag ef fel y gwelant yn briodol.

- Gwelodd swyddogion a oedd ar batrôl mewn cerbyd heddlu wedi'i farcio gar yn y pellter a oedd yn ôl y sôn yn gyrru'n afreolaidd. Cynyddodd y swyddogion eu cyflymder i gael rhif cofrestru'r car. Yn fuan wedyn, dringodd y cerbyd dros ymyl palmant a tharo bollard. Fe wnaeth swyddogion actifadu eu goleuadau glas a'u seirenau i signalu i'r gyrrwr stopio. Methodd y gyrrwr â stopio a gyrodd i ffwrdd ar gyflymder. Dad-actifodd swyddogion eu goleuadau glas a'u seirenau ac arafu. Gan nad oedd y swyddogion wedi cael hyfforddiant i fynd ar ôl y cerbyd, ni wnaethant fynd ar ei ôl. Hysbysodd swyddogion yr ystafell reoli fod car wedi methu â stopio yn dilyn gwrthdrawiad, ac roeddent yn amau y gallai'r gyrrwr fod dan ddylanwad alcohol. Yna parhaodd y swyddogion ar gyflymder arferol, gan golli golwg ar y cerbyd yn fuan wedyn. Cafwyd hyd i'r cerbyd mewn ffos tua 15 munud yn ddiweddarach. Aed â'r gyrrwr i'r ysbyty lle bu farw bron i dair wythnos yn ddiweddarach. Fe wnaethon ni ddychwelyd yr achos i'r heddlu i ddelio ag ef fel y gwelant yn briodol.

Tueddiadau

Eleni, bu farw 15 o bobl mewn 15 digwyddiad unigol. Bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau eleni o 26 i 15. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd o 29 o farwolaethau mewn damweiniau traffig ffyrdd a gofnodwyd dros y cyfnod o 11 mlynedd ers 2015/16. Mae'r ffigurau blynyddol yn amrywio, ac

felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae Tablau 3.1 a 3.2 yn nodi'r math o farwolaethau a digwyddiadau traffig ffyrdd dros yr 11 mlynedd diwethaf. Mae'r tablau'n dangos y digwyddiadau yn y tair categori a ddisgrifiwyd yn flaenorol: yn gysylltiedig â dilyn, yn gysylltiedig ag ymateb brys, a gweithgaredd traffig arall yr heddlu.

Eleni bu gostyngiad yn nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dilyn. Mae'r nifer o 11 yn is na'r cyfartaledd o 19 digwyddiad a welwyd dros yr 11 mlynedd diwethaf.

Bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dilyn eleni, o 18 i 11. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau yn gysylltiedig â dilyn a arweiniodd at nifer o farwolaethau. Cyn 2025/26, y tro diwethaf na fu unrhyw ddigwyddiadau yn gysylltiedig â dilyn a arweiniodd at farwolaethau

lluosog oedd yn 2019/20. Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dilyn eleni yn is na'r cyfartaledd o 21 o farwolaethau a gofnodwyd dros y cyfnod o 11 mlynedd ers 2015/16.

Eleni gwelwyd gostyngiad nodedig yn nifer y digwyddiadau a'r marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ymateb i argyfyngau. Mae'r ffigur o ddau ddigwyddiad a dau farwolaeth ar gyfer y flwyddyn hon yn is na'r cyfartaledd o dri digwyddiad a thri marwolaeth ers 2015/16.

Mae nifer y digwyddiadau sy'n deillio o weithgarwch traffig arall yr heddlu wedi gostwng i ddau o dri y flwyddyn flaenorol, gyda nifer y marwolaethau hefyd wedi gostwng i ddau o dri. Mae'n is na'r cyfartaledd o bedwar digwyddiad a phedair marwolaeth dros yr 11 mlynedd diwethaf, ac yn ostyngiad o dros 80% o'i gymharu â nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn 2004/05.

Tabl 3.1 Math o farwolaethau traffig ffyrdd, 2015/16 i 2025/26

Math RTI	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25	25/26
Cysylltiedig â dilyn	13	28	17	30	19	20	36~	20	24	18	11
Cysylltiedig ag ymateb brys	2	0	8	5	3	1	3	2	1	5	2
Arall	6	4	4	7	2	4	3	6	7	3	2
Cyfanswm y marwolaethau	21	32	29	42	24	25	42~	28	32	26	15

~ Mae'r tabl hwn yn cyflwyno'r set fwyaf cyfredol o ffigurau ar gyfer y categorïau hyn; nodir unrhyw newidiadau i ddata a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Tabl 3.2 Math o ddigwyddiad traffig ffordd, 2015/16 i 2025/26

Math RTI	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25	25/26
Cysylltiedig â dilyn	12	24	17	21	19	15	28~	18	22	17	11
Cysylltiedig ag ymateb brys	2	0	7	5	3	1	3	2	1	5	2
Arall	6	4	3	7	2	4	3	6	6	3	2
Cyfanswm y marwolaethau	20	28	27	33	24	20	34~	26	29	25	15

~ Mae'r tabl hwn yn cyflwyno'r set fwyaf cyfredol o ffigurau ar gyfer y categorïau hyn; nodir unrhyw newidiadau i ddata a gyhoeddwyd yn flaenorol.

4

Saethiadau marwol

Bu pedwar saethiad marwol gan yr heddlu yn 2025/26 a ddigwyddodd mewn tri digwyddiad ar wahân. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o'i gymharu â'r ddau saethiad marwol gan yr heddlu a'r ddau ddigwyddiad a gofnodwyd y llynedd. Crynhoir amgylchiadau'r pedwar saethiad marwol isod. Mae dau ddigwyddiad yn destun ymchwiliadau annibynnol parhaus, tra bod un wedi'i gwblhau.

- Derbyniodd Heddlu Thames Valley alwad i riportio dyn â gwn mewn gorsaf reilffordd. Anfonwyd swyddogion arfau tân i'r orsaf. Swyddogion o gerbyd ymateb arfog oedd y cyntaf i gyrraedd y lleoliad. Wrth i'r swyddogion adael y cerbyd ymateb arfog, cerddodd dyn Gwyn 38 oed ar gyflymder tuag at y ddau swyddog gyda chyllell yn ei law dde. Heriodd y swyddogion y dyn, gan ei gyfarwyddo i aros yn llonydd a rhoi'r gyllell i lawr. Mae fideo corff-wisgedig yn dangos bod y dyn wedi rhedeg tuag at y ddau swyddog gyda chyllell. Yna tafodd un swyddog un ergyd a darodd y dyn yn ei abdomen, gan achosi iddo syrthio i'r llawr. Darparodd swyddogion gymorth cyntaf cyn i barafeddygon gyrraedd a chymryd y gofal meddygol drosodd. Bu farw'r dyn yn y fan a'r lle.
- Derbyniodd Heddlu Manceinion Fwyaf alwad gan aelod o'r cyhoedd yn adrodd bod dyn wedi gyrru at a thrywanu nifer o bobl mewn synagog, tra'n gwisgo'r hyn a oedd yn ymddangos fel dyfais ffrwydrol fyrfyr (IED).

Cyrhaeddodd swyddogion arfau tân y synagog lle'r oedd nifer o bobl eisoes wedi'u hanafu yn yr ymosodiad terfysgol. Bu farw un aelod o'r cyhoedd yn ddiweddarach. Roedd y dyn, a oedd yn 35 oed ac yn Asiaidd, yn sefyll y tu allan i flaen yr adeilad, yn dal cyllell. Symudodd y swyddogion tuag at y dyn a rhoi cyfarwyddiadau llafar iddo. Symudodd y dyn tuag at y swyddogion gyda'r gyllell ac yna taniodd y swyddogion eu harfau sawl gwaith. Bu farw'r dyn yn y fan a'r lle.

Anafwyd dau ddyn arall yn ystod y digwyddiad. Roedd y ddau y tu mewn i'r synagog ar y pryd. Ymddengys bod archwiliad cychwynnol wedi dangos bod yr anafiadau hyn wedi'u hachosi gan arf tanio yr heddlu. Bu farw un o'r dynion, dyn Gwyn 53 oed, yn y fan a'r lle.

- Derbyniodd Heddlu Norfolk adroddiadau am wrthdrawiad traffig ffordd. Adroddwyd bod un o'r gyrwyr dan sylw wedi'i weld gyda'r hyn a oedd yn ymddangos fel gwn llaw, a adawodd y lleoliad wedyn. Daeth swyddogion arfau tân o hyd i'r dyn Gwyn 61 oed yn gorwedd ar ymyl uchel ar ochr y ffordd. Gorchmynnodd y swyddogion i'r dyn ollwng ei arf. Taniodd dau swyddog un ergyd at y dyn, gan ei daro yn y frest a'r abdomen. Darparwyd cymorth cyntaf gan y swyddogion arfog a chriwiau ambiwlans. Fodd bynnag, bu farw'r dyn yn y fan a'r lle. Cafodd yr hyn a oedd yn ymddangos i fod yn wn aer nwy, nad oedd yn eiddo i'r heddlu, ei adfer o'r lleoliad.

5

Marwolaethau yn y ddalfa heddlu neu yn dilyn hynny

Demograffeg

Yn 2025/26, bu farw 27 o bobl yn y ddalfa neu yn dilyn hynny – 24 ohonynt yn ddynion a thri yn fenywod. Roedd eu hoedrannau'n amrywio o 18 i 65 oed. Roedd dau ddeg tri o bobl yn Wyn, tri o bobl yn Asiaidd ac roedd un person o ethnigrwydd cymysg.

Roedd gan ddeunaw o bobl broblemau iechyd meddwl. Roedd y mathau o bryderon iechyd meddwl yn cynnwys iselder, pryder, anhwylder deubegwn a hunan-niweidio, PTSD, seicosis paranoiaidd ac anhwylder personoliaeth ansefydlog yn emosiynol. Roedd dau o bobl wedi cael eu cadw yn y ddalfa o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Roedd yn hysbys bod gan ddau ar hugain o bobl gysylltiad ag alcohol a/neu gyffuriau. Roedd hyn yn golygu, ar adeg eu harestio, eu bod wedi yfed alcohol a/neu gyffuriau yn ddiweddar, wedi bod yn feddw, ym meddiant alcohol a/neu gyffuriau, neu fod ganddynt broblemau hysbys gydag alcohol a/neu gyffuriau. Roedd gan wyth o bobl gysylltiadau ag alcohol ac roedd gan ugain gysylltiadau â chyffuriau. Lle adroddwyd am achos marwolaeth, cofnododd patholegydd fod tocsigrwydd alcohol neu gyffuriau, neu gam-drin hirdymor, yn debygol o fod yn ffactor a gyfrannodd at farwolaethau saith o bobl.

Mae **Tabl 5.1** ar dudalen 16 yn dangos y rhesymau pam y cafodd pobl eu harestio neu eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu.

Tabl 5.1 Marwolaethau tra neu ar ôl cael eu cadw gan yr heddlu: rheswm dros eu cadw, 2025/26

Rheswm dros gadw	Nifer y marwolaethau
Cysylltiedig â thrais	6*
Lladrad / byrgleriaeth / siopladrad	5**
Difrod troseddol	3
Ymddygiad aflonyddu / bygythiol	3***
Troseddau gyrru (gan gynnwys gyrru dan ddylanwad alcohol/cyffuriau)	3^
Cysylltiedig â chyffuriau/diod	2^^
Deddf Iechyd Meddwl 1983	2^^^
Tor heddwch	1
Meddu ar arf	1
Arall	1
Cyfanswm y marwolaethau	27

* Cafodd pedwar o'r bobl hyn eu harestio am droseddau eraill hefyd. Cafodd dau o bobl eu harestio am droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau/diod. O'r ddau hyn, cafodd un arall ei arestio am ddifrod troseddol. Arestiwyd person arall am ddifrod troseddol, a pherson arall am aflonyddu/ymddygiad bygythiol.

** Cafodd un person ei arestio hefyd i'w alw'n ôl i'r carchar.

*** Cafodd un person ei arestio hefyd am garcharu ar gam.

^ Cafodd un person ei arestio hefyd am fod ag arf yn ei feddiant.

^^ Cafodd y ddau berson hyn eu harestio am droseddau eraill. Cafodd un ei arestio am dorri Hysbysiad Diogelu Cymunedol ac fe gafodd y llall ei arestio am ddwyn o siopau.

^^^Cafodd un person ei arestio am ladrad hefyd.

Mae'r data'n dangos bod swyddogion neu aelodau'r cyhoedd wedi defnyddio rhyw fath o rym yn erbyn 12 o'r 27 o bobl a fu farw cyn eu marwolaethau. Mae'n bwysig nodi nad oedd defnyddio ataliaeth, na mathau eraill o rym, o reidrwydd yn cyfrannu at y marwolaethau.

Cafodd deg o'r deuddeg o bobl y defnyddiwyd grym yn eu herbyn eu hatal yn gorfforol gan yr heddlu. Roedd un o'r marwolaethau hyn hefyd yn cynnwys defnyddio grym gan staff diogelwch yn ogystal â'r heddlu. Yn ogystal â'r deg marwolaeth lle roedd yn hysbys bod yr heddlu wedi defnyddio ataliaeth gorfforol, ar gyfer un farwolaeth, defnyddiwyd ataliadau coes ond nid yw'n bosib o'r dystiolaeth sydd ar gael gwybod a ddefnyddiwyd y rhain gan yr heddlu neu gan staff meddygol. Roedd marwolaeth arall yn cynnwys ataliaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn unig. Mae'r term "ataliaeth" yn cyfeirio at ystod o gamau gweithredu, gan gynnwys gafaelion corfforol a chymhwyso gwasgedd. Nid yw'n cynnwys defnyddio gefynnau, oni bai bod math arall o ataliaeth wedi'i ddefnyddio hefyd. O'r deuddeg o bobl a gafodd eu cyfyngu'n gorfforol, roedd deg yn Wyn a dau yn Asiaidd.

Roedd pump o'r deuddeg digwyddiad yn ymwneud â defnyddio grym hefyd yn cynnwys

defnyddio ataliadau coesau. Roedd un yn ymwneud â defnyddio chwistrell analluogi PAVA yn ogystal â chyfyngiad corfforol, ac mewn digwyddiad arall taniodd dau swyddog Taser hefyd.

Amgylchiadau marwolaeth

Yn ôl adroddiad y patholegydd yn dilyn archwiliad post-mortem, adroddwyd am achos marwolaeth 10 o'r 27 a fu farw. Mewn lleiafrif o achosion, efallai na fydd archwiliad post-mortem yn cael ei gynnal. Yn yr achosion hyn, cymerir achos y farwolaeth o gofnodion y meddyg sy'n ardystio'r farwolaeth. Os bydd achos meddygol y farwolaeth yn cael ei herio'n ffurfiol ar adeg y dadansoddiad, bydd achos y farwolaeth yn cael ei gofnodi fel 'disgwyliedig'.

Mewn cwest, pennir achos marwolaeth yn ffurfiol a gall newid o'r achos marwolaeth a restrir yn adroddiad y patholegydd. Mae IOPC yn ymchwilio'n annibynnol i 25 o'r 27 marwolaeth. Mae'r ddwy farwolaeth sy'n weddill yn cael eu hymchwilio'n lleol gan yr heddlu dan sylw.

Aeth un deg chwech o bobl yn sâl neu fe'u nodwyd fel rhai oedd yn sâl **yn nalfa'r**

heddlu. Aed â naw i'r ysbyty lle buont farw'n ddiweddarach. Bu farw chwech o bobl mewn cell heddlu. Cyhoeddwyd bod un person wedi marw mewn ambiwlans a oedd ym maes parcio'r ystafell ddalfa.

Mae'r 16 achos hyn wedi'u hamlinellu isod.

- Cafodd dyn ei arestio am drosedd yn gysylltiedig â chyffuriau ac am dorri Hysbysiad Diogelu Cymunedol. Cafodd ei gymryd i'r ddalfa a'i roi mewn cell, gyda arsylwadau bob 30 munud. Y diwrnod canlynol cafodd y dyn ei gadw yn y ddalfa i ymddangos yn y llys. Cafodd ei asesu'n ddiweddarach gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a'i gadw dan wiriadau 30 munud. Ddeuddydd ar ôl i'r dyn gyrraedd y ddalfa, fe'i canfuwyd yn anymatebol yn ystod gwriad lles. Perfformiodd staff y ddalfa adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) a galwyd am ambiwlans. Mynychodd parafeddygon, ond bu farw'r dyn yn fuan wedyn. *Nid yw achos ei farwolaeth wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd.*
- Cafodd menyw ei harestio a'i chymryd i'r ddalfa. Tra yn y ddalfa, datgelodd y fenyw ei bod yn ddibynol ar alcohol a chyffuriau, a'i bod wedi profi symptomau wrth iddi roi'r gorau i alcohol. Profodd yn bositif am gyffuriau. Cafodd ei hasesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a rhoddwyd meddyginiaeth iddi ar gyfer diddyfnu cyffuriau. Gosodwyd y fenyw dan arsylwadau 30 munud. Yn ddiweddarach yr un diwrnod, trosglwyddwyd y fenyw i ystafell gadwraeth wahanol, mewn llu heddlu gwahanol. Yn ystod y daith roedd y ddynes yn sâl. Yn ystod y broses gofrestru yn yr ail ystafell ddalfa, datgelodd y fenyw hefyd ei bod yn ddibynol ar alcohol a chyffuriau, a'i bod wedi profi symptomau wrth roi'r gorau i alcohol. Arhosodd y ddynes dan arsylwadau 30 munud. Cafodd ei hasesu eto gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a pharhaodd i dderbyn triniaeth ar gyfer diddyfnu cyffuriau. Cafodd ei chadw yn y ddalfa i ymddangos yn y llys y diwrnod canlynol. Yn ystod ei chyfnod yn y ddalfa, dywedodd y fenyw ei bod wedi teimlo'n sâl a'i bod wedi chwydu ddwywaith arall hefyd. Ddeuddydd ar ôl i'r fenyw gael ei harestio'n wreiddiol, yn ystod gwriad arferol, canfuwyd y fenyw yn anymatebol yn ei chell. Darparwyd cymorth meddygol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a mynychodd parafeddygon, ond cyhoeddwyd bod y fenyw wedi marw ychydig amser yn ddiweddarach. Adroddwyd mai *1a oedd achos ei marwolaeth. Camddefnyddio alcohol gyda cardiomyopathi sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'i gymhlethu gan ddiddynfnu alcohol a thrawiad diddyfnu terfynol 2. Brainstem encephalitis.*
- Cafodd dyn ei arestio i'w alw'n ôl i'r carchar a'i gymryd i'r ddalfa. Y diwrnod ar ôl i'r dyn gael ei arestio, aeth staff y ddalfa i mewn i'r gell i roi bwyd iddo a chanfod y dyn yn gorwedd wyneb i lawr ar y llawr. Mynychodd parafeddygon a chyhoeddwyd bod y dyn wedi marw ychydig amser yn ddiweddarach. Adroddwyd mai *1a oedd achos ei farwolaeth. Heb ei ganfod*
- Ymatebodd yr heddlu i adroddiad am ddyn a oedd wedi torri ffenestr car ac a oedd yn rhedeg i mewn ac allan o draffig. Wrth gyrraedd, roedd swyddogion yn amau bod y dyn dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol. Ataliodd swyddogion y dyn a rhoi cyfyngiadau ar ei goesau. Cafodd y dyn ei arestio. Cafodd ei osod yng nghefn fan heddlu a'i gymryd i'r ddalfa. Cafodd y dyn ei gludo i'r ysbyty yn ddiweddarach mewn fan heddlu. Wrth gyrraedd yr ysbyty, nodwyd nad oedd y dyn yn ymateb. Tynnwyd y dyn allan o'r fan a thynnwyd ei gefynnau. Darparodd swyddogion gymorth cyntaf ochr yn ochr â staff meddygol yr ysbyty. Aed â'r dyn i'r ysbyty ond bu farw yn fuan wedyn. Ni ellir adrodd ar achos ei farwolaeth ar hyn o bryd.
- Galwyd yr heddlu i adroddiadau am ddyn 'meddw' yn rhedeg i mewn i draffig. Cyrhaeddodd swyddogion heddlu a hysbysodd staff diogelwch ar y lleoliad hwy fod y dyn, yr oeddent wedi'i rwystro ar y llawr, wedi ymosod arnynt. Ataliodd swyddogion y dyn wrth iddynt roi gefynnau llaw arno, a chafodd ei arestio am ymosod, difrod troseddol a bod yn feddw ac yn anhrefnus. Cafodd y dyn ei gario i fan heddlu a'i gymryd i'r ddalfa, lle cafodd ei roi mewn cell ddal i ddechrau. Tra yn y gell fe chwydodd y dyn sawl gwaith. Cafodd y dyn ei roi mewn cell oedd yn cael ei

fonitro gan CCTV ar wiriadau deffro 30 munud. Yn fuan wedyn, gwelwyd y dyn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac ystyriwyd ei fod yn 'feddw'. Yn ddiweddarach y noson honno, pum munud ar ôl gwiriad arferol, dechreuodd staff y ddalfa bryderu am les y dyn ac aethant i mewn i'w gell eto. Nid oedd y dyn yn ymatebol a darparwyd cymorth cyntaf, gan gynnwys CPR, gan swyddogion a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mynychodd parafeddygon, ond cyhoeddwyd bod y dyn wedi marw ychydig amser yn ddiweddarach. Adroddwyd mai la *Acute myocardial infarction* oedd achos ei farwolaeth.

- Cafodd dyn ei arestio am ymosodiad a throsgedd yn gysylltiedig â chyffuriau. Wrth gael ei chwilio, gofynnodd swyddogion i'r dyn a oedd ganddo rywbeth yn ei geg a dywedodd na. Aethpwyd â'r dyn i'r ddalfa mewn fan heddlu. Yn ystod y weithdrefn cofrestru, dywedodd y dyn ei fod wedi cymryd cetamin. Cafodd y dyn ei chwilio a'i roi mewn cell ar arsylwadau 30 munud. Yn ystod gwiriad arferol ychydig oriau'n ddiweddarach, ffeindiodd swyddog cadw y dyn yn gorwedd ar lawr y gell gyda thoriad i'w ben. Mynychodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a galwyd ambiwlans, gyda swyddogion yn amau bod y dyn wedi cael trawiad. Dechreuodd y dyn gael trawiadau wrth i barafeddygon ei drin, a gofynnodd staff yr ambiwlans am gyfyngiadau coes a gafodd eu rhoi arno. Aed â'r dyn i'r ysbyty mewn ambiwlans. Wrth gael ei gludo i'r ysbyty, cafodd y dyn ataliad ar y galon. Arhosodd yn yr ysbyty, lle bu farw ddau ddiwrnod yn ddiweddarach. Tra yn yr ysbyty, canfuwyd nifer o fagiau snap gwag yn stumog y dyn yn ystod gweithdrefn feddygol. Ni ellir adrodd ar achos ei farwolaeth ar hyn o bryd.
- Cafodd dyn ei arestio am droseddau gyrru. Gofynnwyd iddo roi sampl anadl a chafodd ei chwilio ar ochr y ffordd, y ddau gyda chanlyniad negyddol. Aed â'r dyn i'r ddalfa. Yn ystod y weithdrefn cofrestru, dywedodd y dyn ei fod yn derbyn cymorth ar gyfer dibyniaeth ar gyffuriau. Chwiliwyd y dyn ac yna cafodd ei arsylwi am 30 munud. Oriau lawer yn ddiweddarach, sylwi swyddog cadw

fod y dyn yn ymddangos yn sâl. Darparodd staff y ddalfa a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gymorth meddygol a galwyd am ambiwlans. Cyrhaeddodd parafeddygon a rhoi sylw i'r dyn, a oedd yn ymddangos fel pe bai'n cael trawiadau. Aed ag ef i'r ysbyty mewn ambiwlans. Bu farw yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Adroddwyd mai achos marwolaeth y dyn oedd *I (a) Gwenwynndra cocên aciwt*.

- Cafodd dyn ei arestio am stelcio ac ymddygiad rheoli a gorfodi a'i gymryd i'r ddalfa. Yn ystod yr asesiad risg cychwynnol, datgelodd y dyn ei fod wedi cymryd gorddos o feddyginiaeth bresgripsiwn yn gynharach y diwrnod hwnnw, gyda'r bwriad o ddod â'i fywyd i ben. Dywedodd hefyd ei fod yn bwriadu cymryd ei fywyd ei hun pan gaiff ei ryddhau o'r ddalfa. Cafodd y dyn ei asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn y ddalfa, a gofnododd fod ei bwysedd gwaed yn isel iawn a chynghorodd fod angen triniaeth ysbyty arno. Galwyd am ambiwlans a chludwyd y dyn i'r ysbyty dan hebrwng yr heddlu, tra'n dal i gael ei arestio. Gwrthododd y dyn driniaeth feddygol a bu farw yn yr ysbyty ddau ddiwrnod yn ddiweddarach. Disgwylir achos ei farwolaeth.
- Arestiodd swyddogion ddyn yn ei gyfeiriad cartref. Defnyddiwyd chwistrell analluogi PAVA a chafodd y dyn ei atal yn gorfforol a'i gefynnu i'r cefn. Cafodd ei roi yng nghefn fan heddlu a'i gludo i'r ddalfa. Ar ôl cyrraedd y ddalfa, cafodd y dyn ei gario i mewn i'r adeilad a'i roi mewn cell ddalfa. Yna gadawodd y swyddogion y gell. Tua phum munud yn ddiweddarach, aeth swyddogion i mewn i'r gell ddal a chanfod y dyn yn anymatebol. Rhoddodd swyddogion CPR a galwyd ambiwlans. Aed â'r dyn i'r ysbyty, lle bu farw yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Disgwylir achos ei farwolaeth
- Cafodd dyn ei arestio am ladrad a'i gymryd i'r ddalfa. Yn ystod yr arestio cafodd ei atal. Wrth gael ei gadw yn y ddalfa, datgelodd y dyn ei fod wedi yfed alcohol a chyffuriau. Yna cafodd y dyn ei osod ar wiriadau deffro am 30 munud. Tra yn y ddalfa, gofynnodd y dyn ddwywaith i weld gweithiwr gofal iechyd

proffesiynol. Ymgynghorwyd â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ond ni fynychodd. Yn ddiweddarach y noson honno cafodd y dyn ei ganfod yn anymatebol yn ei gell gan swyddog cadw. Perfformiodd swyddogion CPR nes i'r parafeddygon gyrraedd. Aed â'r dyn i'r ysbyty lle bu farw dridiau'n ddiweddarach. Ni ellir adrodd ar achos ei farwolaeth ar hyn o bryd.

- Aeth swyddog at ddyn a oedd yn ail-lenwi ei gar mewn gorsaf betrol a'i gadw i'w chwilio, ar ôl cynnal gwiriad cudd-wybodaeth ar y car. O ganlyniad i'r chwiliad, cafodd y dyn ei arestio am fod ag arf yn ei feddiant a'i gymryd i'r ddalfa. Gosodwyd y dyn i arsylwadau am 30 munud. Ychydig oriau ar ôl cyrraedd y ddalfa, canfuwyd y dyn yn anymatebol yn ei gell yn ystod gwiriad arferol. Galwodd staff y ddalfa am gymorth a dechrau CPR. Aeth parafeddygon yno'n fuan wedyn, ond cyhoeddwyd bod y dyn wedi marw. Adroddwyd mai achos ei farwolaeth oedd *Gwenwyndra Cocên II. Atheroma rhydweli coronaidd a cardiomegali*.
- Cafodd dyn ei arestio am fyrgleriaeth a'i gymryd i'r ddalfa. Yn ystod ei arestio, cafodd y dyn ei roi mewn gefynnau a'i atal, gan gynnwys defnyddio ataliadau coes. Yn ystod y weithdrefn cofrestru, aethpwyd â'r dyn i gell lle cafodd ei chwilio a'i weld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol oherwydd bod y swyddog cadwraeth wedi nodi bod y dyn o bosib yn dioddef o 'anhwylder ymddygiad aciwt'. Galwyd am ambiwlans oherwydd y ffordd yr oedd y dyn yn ymddangos. Sylwodd swyddog ar y dyn drwy ffenestr drws y gell a chododd bryder bod y dyn wedi rhoi'r gorau i anadlu. Rhoddodd swyddogion a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol CPR i'r dyn a defnyddio diffibriliwr. Galwodd swyddogion y gwasanaeth ambiwlans. Mynychodd parafeddygon a rhoi'r dyn mewn ambiwlans. Bu farw'r dyn ychydig amser yn ddiweddarach. Disgwylir achos ei farwolaeth.
- Derbyniodd yr heddlu alwad pryder am lesiant ynghylch dyn. Cafodd y dyn ei ddarganfod, ei arestio a'i gludo i'r ddalfa. Rai oriau'n ddiweddarach, profodd y dyn ddigwyddiad

meddygol yn y ddalfa. Galwyd am ambiwlans a chludwyd y dyn i'r ysbyty lle cyhoeddwyd ei fod wedi marw yn fuan ar ôl cyrraedd. Disgwylir achos ei farwolaeth.

- Cafodd menyw ei harestio am ladrata o siopau a meddu ar gyffuriau Dosbarth B a'i chymryd i'r ddalfa. Cynhaliwyd chwiliad noeth. Yn ystod y chwiliad, canfuwyd cyffuriau yn ei dillad. Cafodd y ddynes ei rhoi mewn cell a oedd yn cael ei monitro gan gamera cylch cyfyng a'i rhoi dan arsylwadau am 60 munud. Profodd yn bositif am gyffuriau Dosbarth A yn ddiweddarach. Yn fuan wedyn, cafodd ei gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a'i hasesu fel rhywun sy'n addas i'w gadw yn y ddalfa a'i chyfweld. Yn oriau mân y bore canlynol, clywodd staff y ddalfa'r fenyw yn chwydu yn ei chell. Pan siaradwyd â hi, dywedodd yn ôl y sôn ei bod yn diddifynu. Yn ddiweddarach, gwelwyd hi eto gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a roddodd feddyginiaeth ar gyfer diddifynu a'i hasesu fel rhywun sy'n addas ar gyfer cyfweliad. Cafodd y fenyw ei chyfweld wedi hynny a'i dychwelyd i'w chell. Tua dwy awr ar ôl ei chyfweliad, ffeindwyd y fenyw yn anymatebol yn ei chell. Mynychodd staff y ddalfa a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a darparu cymorth meddygol. Yn ystod y driniaeth, canfuwyd ychydig bach o sylwedd y credir gan swyddogion ei fod yn gyffuriau, ar y ddynes. Bu farw'r ddynes ychydig amser yn ddiweddarach. Disgwylir achos ei marwolaeth.
- Cafodd dyn ei arestio am ymosod a throsgedd trefn gyhoeddus a'i gymryd i'r ddalfa. Tra cafodd y dyn ei gadw yn y ddalfa, cafodd ei atal er mwyn ei chwilio. Cafodd ei asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Nododd cofnod y ddalfa fod y dyn wedi meddwi ac yn ddibynnol ar alcohol. Cafodd y dyn ei ryddhau ar fechnïaeth. Ychydig oriau'n ddiweddarach, cafodd y dyn ei ail-arestio am aflonyddu ar ôl torri amodau ei fechnïaeth. Yn ystod ei ail gyfnod yn y ddalfa, cwynodd y dyn am boen yn ei fraich. Yn gynnar y diwrnod canlynol, cafodd ei weld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a gynghorodd y dylid ei fonitro am ddiddifynu alcohol. Yn ddiweddarach y noson honno

cafodd y dyn ei gyhuddo a'i gadw yn y ddalfa. Yn ystod ei ail gyfnod yn y ddalfa, gwelwyd y dyn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a rhoddwyd meddyginiaeth iddo ddwywaith ar gyfer diddyfnu alcohol. Y bore canlynol, ddau ddiwrnod ar ôl i'r dyn gael ei arestio gyntaf, canfuwyd y dyn yn anymatebol a galwyd am ambiwlans. Rhoddodd swyddogion CPR i'r dyn, gyda chefnogaeth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Aed â'r dyn i'r ysbyty, lle bu farw yn fuan ar ôl cyrraedd. Disgwylir achos ei farwolaeth.

- Derbyniodd yr heddlu adroddiad am ddyn yn gyrru'n afreolaidd. Cyrhaeddodd yr heddlu'r lleoliad. Nodwyd bod y dyn yn ansicr, ac adroddodd fod ganddo haint ar y frest. Cafodd y dyn brawf anadl, ond nid oedd yn gallu rhoi digon o anadl i gwblhau'r prawf. Methodd y dyn â chwblhau'r Prawf Nam Maes (cyfres o brofion yw hon, er enghraifft gofyn i rywun gerdded mewn llinell syth). Cafodd ei arestio am yrru dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau a'i gymryd i'r ddalfa. Oherwydd ei gyflwr dryslyd ymddangosiadol, cafodd ei weld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Nodwyd bod ei gyfradd curiad calon wedi codi a bod ganddo dymheredd uchel. Awdurdododd sarsiant dalfa i'r dyn gael ei ryddhau o'r ddalfa gan fod ei anaddasrwydd i yrru wedi bod o ganlyniad i ddigwyddiad meddygol. Galwyd am ambiwlans a rhoddodd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fwgwd ocsigen ar y dyn. Aed â'r dyn i'r ysbyty. Bu farw'r dyn yn yr ysbyty sawl diwrnod yn ddiweddarach. Disgwylir achos ei farwolaeth. Ymchwiliwyd i'r farwolaeth hon yn lleol gan yr heddlu.

Aeth naw o bobl yn sâl yn **lleoliad yr arestio**. Aed â chwech o bobl i'r ysbyty, lle buont farw'n ddiweddarach. Bu farw tri o bobl yn y fan a'r lle.

- Galwyd yr heddlu i adroddiadau bod dyn yn rhedeg ar hyd y stryd yn gweiddi ac yn achosi difrod i eiddo. Ar ôl cyrraedd, daeth swyddogion o hyd i'r dyn, a oedd i bob golwg yn ceisio mynd i mewn i dŷ. Aethpwyd â'r dyn i'r llawr a'i roi mewn gefynnau. Hysbysodd swyddog ystafell reoli'r heddlu eu bod yn credu bod y dyn yn dioddef o

'anhwylder ymddygiad aciwt', a gofynnwyd am ambiwlans. Symudodd swyddogion y dyn i safle unionsyth ac mewn ymateb i gwestiynu, dywedodd wrthyn nhw ei fod wedi yfed alcohol a chyffuriau. Cafodd y dyn ei arestio ar amheuaeth o ddifrod troseddol. Bum munud ar ôl i'r heddlu gyrraedd, daeth y dyn yn anymatebol a thynnwyd ei gefynnau. Gosododd swyddogion ef yn y safle adfer a darparu cymorth cyntaf, gan gynnwys CPR, nes i'r parafeddygon gyrraedd a chymryd yr awenau wrth drin y claf. Aed â'r dyn i'r ysbyty, lle bu farw yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Adroddwyd mai *1 (a) gwenwyndra MDMA sy'n gysylltiedig ag Aflonyddwch Ymddygiadol Acíwt oedd achos ei farwolaeth*.

- Galwyd yr heddlu i adroddiadau am ddyn a oedd yn gwrthod gadael safle busnes ac a oedd yn ymddangos dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau. Ar ôl cyrraedd, disgrifiodd swyddogion y dyn fel un oedd dan ddylanwad sylwedd anhysbys, yn chwysu ac yn baranoaidd. Fe wnaeth swyddogion roi gefynnau ar y dyn a'i chwilio, a gafodd ei gadw o dan Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Aed â'r dyn i'r ysbyty ond cafodd ei ddychwelyd yn ddiweddarach i fan heddlu wedi'i farcio ym maes parcio'r ysbyty oherwydd pryderon am ei ymddygiad. Tra roedd yn y fan, tawelodd y dyn a gofynnodd swyddogion am gymorth. Perfformiodd y staff meddygol CPR, ond bu farw'r dyn ychydig amser yn ddiweddarach. Adroddwyd mai *1a gwenwyndra cocên yng nghyd-destun seicosis a achosir gan gyffuriau oedd achos ei farwolaeth*.
- Derbyniodd yr heddlu alwadau am ddigwyddiad lle ymosodwyd ar berson, gydag un o'r galwadau'n nodi bod yr ymosodwr a gofnodwyd yn y fan a'r lle. Aeth swyddogion yno a chawsant eu cyfeirio at ddyn ar y llawr. Tynnodd y swyddogion y dyn o y tu ôl i gar wedi'i barcio a'i roi mewn gefynnau tra roedd yn gorwedd ar y llawr. Dywedodd y dyn dro ar ôl tro wrth y swyddogion ei fod wedi cael ei drywanu ac na allai anadlu. Cafodd y dyn ei arestio am ymosodiad. Yn fuan wedyn, daeth yn anymatebol. Tynnwyd y gefynnau a

rhoddwyd CPR. Mynychodd parafeddygon a rhoddodd driniaeth feddygol, fodd bynnag, cyhoeddwyd bod y dyn wedi marw yn y fan a'r lle ychydig amser yn ddiweddarach. Bu farw o ganlyniad i glwyfau trywanu a gafodd cyn i'r heddlu gyrraedd. Mae dyn wedi cael ei euogfarnu o'i lofruddiaeth.

- Derbyniodd yr heddlu alwad gan ddyn a ddywedodd ei fod wedi torri amodau ei fechniaeth. Yn ystod yr alwad bygythiodd niweidio ei hun ac eraill, dangosodd cofnodion yr heddlu hefyd ei fod o dan amheuaeth gref o'r drosedd o ddifrod troseddol. Aeth swyddogion i'r safle a chanfod y dyn mewn stryd yn niweidio ei hun. Fe wnaeth y ddau swyddog danio eu Taser, a chafodd y dyn ei atal a'i gefynnu. Mynychodd swyddogion pellach a chafodd ei arestio am ddifrod troseddol. Roedd ambiwlans wedi cael ei alw ac, yn fuan ar ôl iddo gyrraedd, roedd yn ymddangos bod y dyn wedi dechrau cael trawiadau. Aethpwyd â'r dyn i'r ysbyty mewn ambiwlans, yng nghwmni swyddogion heddlu. Tra roedd yn yr ysbyty dan oruchwyliaeth yr heddlu, adroddodd swyddogion fod y dyn wedi cynhyrfu. Mae fideo a wisgwyd ar y corff yn dangos bod gefynnau wedi cael eu hail-roi a bod y dyn wedi cael ei atal gan swyddogion. Ychydig yn ddiweddarach, rhoddwyd cyfyngiadau coes hefyd, a thynnwyd gefynnau'r dyn eto. Awr yn ddiweddarach, cafodd y dyn sawl trawiad ac yna cafodd ataliad ar y galon. Perfformiodd staff yr ysbyty CPR, ond bu farw yn fuan wedyn. Disgwylir achos ei farwolaeth.
- Ymatebodd yr heddlu i alwad am ddigwyddiad domestig. Ar ôl cyrraedd, gorfododd yr heddlu fynediad i'r eiddo. Daeth swyddogion o hyd i ddyn yn eistedd ar y llawr yn gofyn am gymorth. Dywedodd ei fod yn cael trawiad. Cafodd y dyn ei arestio am dorri'r heddwch a'i roi mewn gefynnau. Dywedodd wrth swyddogion ei fod wedi cymryd llawer iawn o feddyginiaeth a gofynnodd am gael ei gludo i'r ysbyty. Wrth i'r dyn adael y cyfeiriad, roedd yn ymddangos ei fod wedi cael trawiad. Galwodd swyddogion ambiwlans a darparu cymorth meddygol nes i barafeddygon gyrraedd a

chymryd yr awenau. Cafodd y dyn ei roi yn yr ambiwlans, a arhosodd yn y fan a'r lle, lle bu farw yn fuan wedyn. Disgwylir achos ei farwolaeth.

- Derbyniodd yr heddlu alwadau yn adrodd am ddyn yn rhedeg i mewn ac allan o erddi ac yn neidio ar geir. Adroddodd galwad arall fod y dyn wedi mynd i mewn i dŷ. Adroddodd galwyr eu bod yn credu y gallai'r dyn fod dan ddylanwad cyffuriau. Aeth swyddogion i mewn i'r tŷ. Cafodd y dyn ei atal ar y llawr, ei roi mewn gefynnau, a'i arestio am fyrgleriaeth. Trowyd y dyn ar ei ochr a gofynnwyd am ambiwlans, oherwydd 'anhwylder ymddygiad aciwt posib'. Daeth swyddogion yn bryderus am anadlu'r dyn, a gwnaed galwad arall i'r gwasanaeth ambiwlans. Cyrhaeddodd parafeddygon a datgelodd y dyn ei fod wedi cymryd cyffuriau. Rhoddodd swyddog gyfyngiadau ar ei goesau fel y gallai parafeddygon roi triniaeth gan leihau'r risg i'r dyn, yr heddlu a'r parafeddygon. Gwaethygodd cyflwr y dyn ymhellach a thynnwyd y rhwystrau coes a'r gefynnau llaw. Aed â'r dyn i'r ysbyty lle bu farw ychydig amser yn ddiweddarach. Adroddwyd mai *1a) Gwenwynndra Cocên gydag Aflonyddwch Ymddygiadol Acíwt oedd achos ei farwolaeth.*
- Derbyniodd yr heddlu alwad gan ddyn yn gofyn am yr heddlu. Dywedodd fod ei ddiod wedi cael ei 'sbeicio'. Aeth swyddogion i'r cyfeiriad a'i adnabod fel un oedd yn cael ei geisio am droseddau lladrad. Cafodd ei arestio a'i roi mewn gefynnau. Dywedodd y dyn wrth y swyddogion ei fod yn credu bod ei ddiod wedi cael ei sbeicio a bod ganddo gyffuriau arno. Cynhaliwyd chwiliad, ond ni chafwyd unrhyw gyffuriau. Oherwydd pryderon ynghylch iechyd y dyn, aeth swyddogion ag ef i'r ysbyty mewn fan heddlu. Yn ystod y daith, disgrifiodd swyddogion y dyn fel un a oedd yn ymddangos yn gynhyrfus. Ar ôl cyrraedd yr ysbyty, tynnwyd y dyn allan o'r fan, a chafodd ei atal ar y ddaear gan fod swyddogion yn poeni ei fod yn ceisio rhedeg i ffwrdd. Cafodd y dyn ei ddad-arestio am ladrad a'i gadw o dan Adran 136 o *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983*. Gosodwyd y dyn yn ôl yn y fan. Dangosodd fideo a wisgwyd ar ei gorff ef yn gweiddi, yn cicio ac yn taro

yn y fan. Yn ystod y cyfnod hwn, cysylltodd swyddogion â'r Tîm Cyswllt lechyd Meddwl a cheisiasant gyngor gan ymgynghorydd yn yr ysbyty a ddaeth i'r fan. Ychydig dros awr yn ddiweddarach, tra roedd yn dal yn y fan, roedd cyflwr y dyn i bob golwg wedi dirywio. Fe wnaeth swyddogion alw ar feddyg a'i adolygu. Ni nododd y meddyg unrhyw bryderon uniongyrchol, ond dywedodd y byddent yn dod o hyd i'r ymgynghorydd a oedd wedi'i weld yn flaenorol. Yn fuan wedyn, daeth y dyn yn anymatebol. Darparodd swyddogion CPR nes i staff meddygol gymryd yr awenau. Aed â'r dyn i'r ysbyty ond bu farw ychydig amser yn ddiweddarach. Disgwylir achos ei farwolaeth

- Derbyniodd yr heddlu alwad i roi gwybod bod dyn wedi achosi difrod troseddol i gerbyd. Gwnaed galwad arall gan berson arall, yn adrodd pryder am les y dyn. Cyrhaeddodd yr heddlu a llwyddo i gael mynediad i dŷ'r dyn. Roedd y dyn i fyny'r grisiau a rhoddodd swyddogion wybod iddo ei fod wedi'i arestio am ddifrod troseddol. Nodwyd bod ganddo arf. Dros yr oriau nesaf, bu swyddogion yn ymgysylltu o bryd i'w gilydd â'r dyn. Cyrhaeddodd trafodwr y tŷ hefyd. Ar ôl nifer o oriau, cafwyd hyd i'r dyn yn farw yn y tŷ. Ni ellir adrodd achos y farwolaeth ar hyn o bryd.
- Derbyniodd yr heddlu nifer o alwadau yn adrodd pryderon am ddyn. Dywedodd y galwyr ei fod yn ymddangos fel pe bai dan ddylanwad cyffuriau a bod ganddo anafiadau. Adroddodd rhai pobl ei fod yn gorfodi mynediad i'w cartrefi. Adroddodd galwad arall fod y dyn yn cael ei atal gan drigolion. Roedd yn hysbys bod gan y dyn droseddau cam-drin domestig yn ei erbyn. Aeth swyddogion i'r lleoliad a chanfod y dyn yn gorwedd ar y llawr y tu allan i dŷ. Roedd gyda dau aelod o'r cyhoedd a oedd i bob golwg yn ceisio ei gadw'n llonydd. Roedd yn ymddangos bod y dyn yn anymatebol. Darparodd yr heddlu gymorth cyntaf nes i ambiwlans gyrraedd. Ar ôl i'r dyn gael ei symud i'r ambiwlans, dywedodd criwiau ambiwlans wrth swyddog nad oeddent yn credu bod ei gyflwr yn fygythiad i fywyd nac yn newid bywyd, felly cafodd y dyn ei arestio am y troseddau heb eu datrys. Aed â'r dyn i'r ysbyty, lle gwaethygodd ei gyflwr. Bu

farw'r dyn ychydig amser yn ddiweddarach. Adroddwyd mai *1a Gwenwynndra cocên aciwt 2 oedd achos ei farwolaeth yn ystod ABD a oedd yn cynnwys cyfnod o ataliaeth, tra'n agored i effeithiau posib cetamin a sertralin*. Ymchwiliwyd i'r farwolaeth hon yn lleol gan yr heddlu.

Bu farw un person ar ôl mynd yn sâl **wrth gael ei gludo i'r ddalfa** mewn cerbyd heddlu.

- Stopiodd swyddogion fan ac oherwydd gwiriadau ar systemau'r heddlu penderfynasant gynnal chwiliadau o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (1971). Chwiliwyd y gyrrwr ac ni chafwyd dim, ond o ganlyniad i wiriadau cychwynnol ar systemau'r heddlu, cafodd ei arestio ar amheuaeth o yrru tra'n anghymhwys a'i roi yng nghefn fan heddlu mewn gefynnau. Chwiliwyd y fan hefyd, a chafwyd hyd i gyllell fawr ac agorwyd cynwysyddion cwrw. Ar yr un pryd, roedd y swyddog arestio wedi cynnal gwiriadau ychwanegol ac wedi cadarnhau nad oedd y dyn wedi'i wahardd rhag gyrru er gwaethaf y wybodaeth gychwynnol a ddarparwyd. Felly cafodd y dyn ei ddad-arestio ar amheuaeth o yrru tra oedd wedi'i wahardd. Fodd bynnag, cafodd ei arestio am fod â gwrthrych llafnog yn ei feddiant. Gofynnwyd i'r dyn wneud prawf anadl a roddodd ganlyniad negyddol. Wrth deithio i'r ddalfa, dechreuodd swyddogion bryderu pan fethodd y dyn ag ymateb iddynt. Agorodd swyddog ddrws mewnol y cawell, ac roedd yn ymddangos bod y dyn yn cael trawiad. Asesodd swyddogion hyn fel argyfwng meddygol a dargyfeiriodd y fan a gyrru'r dyn i'r ysbyty, gyda goleuadau a seirenau ymlaen. Ar ôl cyrraedd, cafodd y dyn ei dynnu o'r fan a thynnwyd ei gefynnau. Cafwyd pecyn bach, yn cynnwys powdr gwyn, yn ei law. Bu farw'r dyn yn fuan ar ôl cyrraedd yr ysbyty. Ni ellir adrodd ar achos ei farwolaeth ar hyn o bryd.

Bu farw un fenyw **ar ôl cael ei rhyddhau o ddalfa'r heddlu**.

- Cafodd menyw ei harestio ar amheuaeth o ymosod a'i chymryd i'r ddalfa. Nododd y sarsiant cadwraeth ei bod hi'n dioddef o sawl cyflwr meddygol, gan arwain at iddi leihau ei

symudedd. Cafodd ei harchwilio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, a'i hasesodd fel un nad oedd yn addas i'w chadw oherwydd pryderon ynghylch ei symudedd. Gwnaeth y sarsiant y ddalfa'r penderfyniad i'w rhyddhau o'r ddalfa cyn y cyfweliad. Gwnaed trefniadau i'r gwasanaethau cymdeithasol fynychu ei chyfeiriad cartref y bore canlynol. Aeth swyddogion heddlu â hi adref ac aeth i mewn i'w heiddo tra bod swyddogion yn aros y tu allan. Ychydig ar ôl mynd i mewn i'r eiddo, clywodd swyddogion sgrechian ac yna twrw. Aethant i mewn i ddod o hyd i'r ddynes ar y llawr. Darparodd swyddogion CPR a defnyddio diffibriliwr. Cyrhaeddodd parafeddygon, ond bu farw'r ddynes yn y fan a'r lle. Disgwylir achos ei marwolaeth.

Tueddiadau

Rhwng 2004/05 a 2008/09, bu gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn yn nifer y marwolaethau yn y ddalfa gan yr heddlu neu yn dilyn hynny. Gostyngodd y marwolaethau hyn o 36 yn 2004/05 i 15 marwolaeth yn 2008/09. Dros y ddwy flynedd nesaf, cynyddodd nifer y marwolaethau yn y ddalfa i 21 yn 2010/11, cyn gostwng i 15 yn 2011/12 a 2012/13. Bu gostyngiad pellach yn 2013/14 i 11.

Yn 2014/15, cododd y nifer i 18 ac yna gostyngodd gan aros yn sefydlog ar 14 yn 2015/16 a 2016/17. Yn 2017/18 roedd 23 o farwolaethau, y nifer uchaf a gofnodwyd ers deng mlynedd.

Gostyngodd y nifer hwn i 17 o farwolaethau yn 2018/19 a chynyddodd ychydig i 18 yn 2019/20 ac yna i 19 yn 2020/21. Gostyngodd nifer y marwolaethau yn y ddalfa gan yr heddlu neu yn dilyn hynny yn sylweddol i 12 yn 2021/22, cyn bron dyblu i 23 yn 2022/23. Bu cynnydd bach arall yn 2023/24 i 25 o farwolaethau, cyn gostyngiad i 18 yn 2024/25.

Eleni, mae nifer y marwolaethau yn y ddalfa neu yn dilyn hynny wedi cynyddu'n sylweddol, i 27, y trydydd uchaf ar y cyd a gofnodwyd ers 2004/05. Y nifer cyfartalog o farwolaethau yn y ddalfa gan yr heddlu neu yn dilyn hynny a gofnodwyd ers i'r ffigurau ddechrau yn 2004/05 yw 20. Y cyfartaledd a gofnodwyd dros y cyfnod o 11 mlynedd ers 2015/16 yw 19. Dangosir y tueddiadau hyn yn y graff yn ffigur 2.1, ac yn y tablau data cyfres amser.

Eleni, ni fu farw unrhyw bobl ar ôl gwneud ymgais ymddangosiadol i gyflawni hunanladdiad tra yn ystafell ddalfa'r heddlu. Y digwyddiad diwethaf o'r fath oedd yn 2023/24. Cyn hynny, bu un digwyddiad yn 2016/17, un yn 2014/15 ac un yn 2008/09. Ers 2004/05, gwyddys bod wyth o bobl wedi marw o ganlyniad i weithredoedd hunan-achosedig tra roeddent mewn cell heddlu. Bu farw tri o bobl o ganlyniad i weithred hunan-achosedig a ddigwyddodd cyn eu harestio.

Eleni, cyhoeddwyd bod chwech o bobl wedi marw mewn cell heddlu, dwbl y ffigur o dri a gofnodwyd yn 2024/25. Yn 2023/24, bu farw pedwar o bobl mewn cell heddlu. Yn y blynyddoedd 2022/23, 2021/22 a 2020/21 cyhoeddwyd bod tri o bobl wedi marw mewn cell heddlu. Yn 2019/20, bu farw un person mewn cell heddlu. Yn 2018/19, ni fu farw neb mewn cell heddlu. Yn 2017/18, bu tri marwolaeth o'r fath.

6

Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu

Mae hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn cyfnod yn nalfa'r heddlu wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn os ydynt yn digwydd o fewn dau ddiwrnod i ryddhau'r person o'r ddalfa. Maent hefyd wedi'u cynnwys os oedd profiadau yn y ddalfa o bosibl yn berthnasol i'r farwolaeth, a bod y farwolaeth wedi'i atgyfeirio at IOPC. Efallai na fydd yr heddlu bob amser yn cael gwybod am hunanladdiad ymddangosiadol sy'n digwydd ar ôl cyfnod yn y ddalfa, gan efallai na fydd y cysylltiad yn glir. Felly, efallai y bydd mwy o farwolaethau yn yr amgylchiadau hyn nag a adroddir yma.

Nid yw'r term 'hunanladdiad' o reidrwydd yn ymwneud â dyfarniad crwner. Mae dyfarniadau yn yr arfaeth o hyd yn y rhan fwyaf o achosion. Dim ond ar ôl ystyried natur y farwolaeth ac a yw'r amgylchiadau'n awgrymu ei bod yn weithred fwriadol, hunan-achosedig yr ydym yn cynnwys yr achosion hyn. Er enghraifft, crogi, neu lle'r oedd rhywfaint o dystiolaeth o 'feddwl hunanladdol', fel nodyn hunanladdiad.

Demograffeg

Roedd 67 o hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn cadw'r heddlu yn 2025/26 – 62 o ddynion a phump o fenywod. Oedran cyfartalog y rhai a fu farw oedd 46 oed. Yr oedran mwyaf cyffredin oedd rhwng 51 a 60 oed (22 o bobl), ac yna 31 i 40 oed (16 o bobl). Roedd y person ieuengaf yn 19 oed. Roedd chwe deg tri o'r rhai a fu farw yn Wyn, a phedwar o bobl yn Ddu.

Roedd gan bron i ddwy ran o dair (43) broblemau iechyd meddwl hysbys. O'r rhain, cafodd un person ei gadw o dan Adran 136 o'r *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983*. Roedd pryderon iechyd meddwl eraill yn cynnwys iselder, seicosis, anhwylder deubegwn, pryder, meddyliau neu ddigwyddiadau blaenorol o geisio cyflawni hunanladdiad, a hunan-niweidio.

Adroddwyd bod ychydig o dan hanner y bobl (29) wedi meddwi gan gyffuriau a/neu alcohol ar adeg eu harestio, neu fod cyffuriau a/neu alcohol yn rhan bwysig o'u ffordd o fyw. Deunaw o farwolaethau yn gysylltiedig ag alcohol ac un deg chwech o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau.

Amgylchiadau marwolaeth

Digwyddodd un deg naw o hunanladdiadau ymddangosiadol yr un diwrnod y cafodd y person ei ryddhau o ddalfa'r heddlu. Digwyddodd tri deg tri ddiwrnod ar ôl eu rhyddhau, a digwyddodd 15 ddau ddiwrnod ar ôl eu rhyddhau.

Mae Tabl 6.1 yn dangos y rhesymau pam y rhoddwyd y bobl hyn yn y ddalfa gan yr heddlu. Roedd deugain o'r rhai a fu farw (60%) wedi cael eu harestio am drosedd rywiol. O'r rhain, roedd 29 (43%) yn ymwneud â throseddau rhywiol neu ddelweddau anwedus yn cynnwys plant. Roedd un ar hugain am ymddygiad bygythiol ac aflonyddu; cafodd llawer o'r bobl hyn eu harestio am ymddygiad rheoli a gorfodi a/neu stelcio.

Rhesymau cyffredin eraill oedd troseddau yn ymwneud â thrais (11) a throseddau gyrru (6).

Cafodd un ar hugain o bobl (31%) eu cadw am sawl rheswm. Mae hyn yn cymharu ag un ar ddeg y llynedd (18%).

Cafodd pob un ond un o'r hunanladdiadau ymddangosiadol a gofnodwyd yn dilyn cadw'r heddlu eu trin yn lleol gan yr heddlu dan sylw. Mae'r digwyddiad sy'n weddill yn cael ei ymchwilio'n annibynnol gan IOPC.

Tabl 6.1 Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn cadw gan yr heddlu: rheswm dros gadw yn y ddalfa, 2025/26

Rheswm dros gadw	Nifer y cadwadau
Troseddau rhywiol	40
Ymddygiad bygythiol/aflonyddu	21
Cysylltiedig â thrais (heb fod yn rhywiol neu lofruddiaeth)	11
Troseddau gyrru (gan gynnwys gyrru dan ddylanwad alcohol/cyffuriau)	6
Cysylltiedig â chyffuriau / diod	3
Difrod troseddol	2
Meddu ar arf	2
Lladrad / byrgleriaeth / siopladrad	2
Carcharu ar gam	2
Tor heddwch	1
<i>Deddf lechyd Meddwl 1983</i>	1
Cysylltiedig â therfysgaeth	1
Esgeulustod plant	1
Anfon cyfathrebiadau anweddus gan ddefnyddio rhwydwaith cyhoeddus	1
Rhwystro swyddog heddlu	1
Cyfanswm nifer y rhesymau dros gadw yn y ddalfa	95
Cyfanswm y marwolaethau	67

Mae'r tabl hwn yn cyfrif nifer y gwahanol resymau dros gadw yn y ddalfa. Efallai bod pob person wedi cael ei gadw yn y ddalfa am un neu fwy o resymau.

Tueddiadau

Mae nifer yr hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn cyfnod yn y ddalfa gan yr heddlu o 67 yn uwch na'r 61 a gofnodwyd yn 2024/25. Mae'n uwch na'r cyfartaledd o 59 a gofnodwyd dros y cyfnod o 11 mlynedd o 2015/16. Mae adrodd am y marwolaethau hyn yn dibynnu ar heddluoedd yn gwneud y cysylltiad rhwng hunanladdiad ymddangosiadol a rhywun yn treulio amser yn y ddalfa yn ddiweddar. Felly, gall cynnydd neu ostyngiad yn y marwolaethau hyn gael ei ddylanwadu gan adnabod ac atgyfeirio achosion o'r fath.

Eleni, ar gyfer 60% o farwolaethau, y rheswm dros eu cadw yn y ddalfa oedd troseddau rhywiol honedig. Roedd cyfran y troseddau rhywiol neu ddelweddau anweddus yn cynnwys plant yn 43%. Mae'r cyfrannau hyn yn unol â'r ffigurau a gofnodwyd y llynedd (62% a 44% yn y drefn honno) ond yn uwch na'r ffigurau cyfartalog. Y cyfrannau cyfartalog ar gyfer y troseddau honedig hyn ers 2004/05 yw 38% a 30% yn y drefn honno.

7

Marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu: ymchwiliadau annibynnol yn unig

Yn 2010/11, gwnaed newid i ddiffiniad y categori hwn. Bellach dim ond y marwolaethau hynny yn dilyn cyswllt â'r heddlu a ymchwiliwyd yn annibynnol gan IOPC, a elwid gynt yn IPCC, y mae'n eu cynnwys.

Yn ystod 2014/15, dechreuodd yr IPCC gyfnod sylweddol o newid ac ehangu mewn ymateb i gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd y dylai fod mwy o ymchwiliadau annibynnol i faterion difrifol a sensitif. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar nifer y marwolaethau a gofnodwyd gennym yn y categori 'marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu' oherwydd bod cynnwys y math hwn o achos yn yr adroddiad blynyddol yn seiliedig ar iddynt gael eu hymchwilio'n annibynnol.

Felly, nid yw unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y categori hwn o reidrwydd yn dynodi newid yn nifer y bobl a fu farw yn dilyn rhyw fath o gysylltiad â'r heddlu.

Demograffeg cyffredinol

Fe wnaethon ni ymchwilio'n annibynnol i farwolaethau 63 o bobl a fu farw yn ystod neu yn dilyn cyswllt arall â'r heddlu yn ystod 2025/26. O'r marwolaethau hyn:

- Roedd tri deg wyth yn ddynion a 25 yn fenywod.
- Roedd pedwar deg chwech o bobl yn Wyn, dau o bobl yn Ddu, wyth yn Asiaidd, tri o

bobl o ethnigrwydd cymysg, dau o bobl o ethnigrwydd arall, ac nid oedd ethnigrwydd dau o bobl yn hysbys.

- Roedd pedwar o bobl o dan 18 oed, ac roedd 18 o bobl yn oedolion ifanc rhwng 18 a 30 oed. Roedd chwech o bobl dros 60 oed. Yr oedran cyfartalog oedd 38 oed.
- Adroddwyd bod dros hanner y rhai a fu farw (37) wedi meddwi gan gyffuriau a/neu alcohol ar adeg y digwyddiad, neu fod cyffuriau a/neu alcohol yn rhan bwysig o'u ffordd o fyw. Adroddwyd bod gan dros ddwy ran o dair o'r bobl a fu farw (43) broblemau iechyd meddwl.

Tabl 7.1 Marwolaethau eraill yn dilyn cyswllt â'r heddlu: rheswm dros y cyswllt, 2025/26

Rheswm dros gysylltu		Nifer y marwolaethau
Pryder am lesiant	Cysylltiedig â domestig	16
	Iechyd / anafiadau / meddwdod / cyffredinol	13
	Hunan-niweidio / risg hunanladdiad / iechyd meddwl	12
	Person coll	6
	Ymddygiad bygythiol / aflonyddu	2
	Pryder am lesiant - arall	2
	Is-gyfanswm	51
Cyswllt arall	Osgoi cyswllt / arestio	3
	Mynychu aflonyddwch	3
	Gweithredu gwarant chwilio / arestio / cynnal ymholiadau ymchwilio	3
	Cynorthwyo staff meddygol	2
	Arall	1
	Is-gyfanswm	12
	Cyfanswm y marwolaethau	63

Amgylchiadau marwolaeth

Mae'r marwolaethau a gofnodwyd yn y categori hwn yn cynnwys amrywiaeth o amgylchiadau. Efallai nad oedd cyswllt yr heddlu'n uniongyrchol â'r person a fu farw, ond â thrydydd parti, fel y gwelir yn rhai o'r enghreifftiau achos. Cymerir achos y farwolaeth, lle dangosir, o adroddiad y patholegydd yn dilyn archwiliad post-mortem.

Efallai na fydd archwiliad post-mortem yn cael ei gynnal mewn lleiafrif o achosion. Yn y sefyllfa hon, cymerir achos y farwolaeth o gofnodion y meddyg a ardystiodd y farwolaeth. Bydd achos y farwolaeth yn cael ei gofnodi fel 'disgwyliedig' os caiff ei herio'n ffurfiol ar adeg y dadansoddiad.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros gysylltu â'r heddlu oedd pryder ynghylch lles, fel y dangosir yn Nhabl 7.1. Bu farw 51 o bobl ar ôl i bryderon gael eu codi gyda'r heddlu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ynghylch eu diogelwch neu eu lles cyn eu marwolaeth. Cofnodwyd deuddeg marwolaeth arall am fathau eraill o gyswllt â'r heddlu.

Defnyddiwyd grym yn erbyn cyfanswm o ddeuddeg o bobl a fu farw yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Roedd wyth o bobl yn Wyn, un person yn Asiaidd, un person yn Ddu, roedd un person o ethnigrwydd cymysg, ac un person o ethnigrwydd arall.

Cafodd un ar ddeg o bobl eu hatal gan swyddogion heddlu. O'r un ar ddeg o farwolaethau hyn:

- Cafodd chwech o bobl eu coesau wedi'u hatal gan swyddogion heddlu.
- Roedd tri marwolaeth hefyd yn cynnwys ataliaeth gan aelodau'r cyhoedd.
- Roedd un farwolaeth yn cynnwys defnyddio offer arall, sef gwarchodwr brathiad. Roedd y farwolaeth hon hefyd yn cynnwys defnyddio chwistrell analluogi PAVA.

Yn ogystal â'r un ar ddeg o bobl a gafodd eu hatal, roedd un digwyddiad hefyd yn cynnwys tanio Taser.

Nid yw defnyddio grym o reidrwydd yn golygu bod y grym a ddefnyddiwyd wedi cyfrannu at y farwolaeth.

Pryder am lesiant

O'r 51 o farwolaethau a ddilynodd gysylltiad â'r heddlu oherwydd pryder am les, roedd tair ar ddeg o farwolaethau yn ymwneud ag **iechyd y person, anafiadau posib, meddwdod, neu lesiant cyffredinol**. Yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, cysylltodd trydydd parti â'r heddlu i godi eu pryder. Yn y categori hwn:

- Roedd naw o bobl yn ddynion a phedwar yn fenywod.
- Roedd deuddeg o bobl yn Wyn ac roedd un person o ethnigrwydd arall.
- Yr oedrannau mwyaf cyffredin oedd 21-30 a 31-40, gyda phedwar o bobl ym mhob un o'r grwpiau oedran hyn. Yr oedran cyfartalog oedd 43.
- Adroddwyd bod mwyafrif y rhai a fu farw (8) dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau ar adeg y digwyddiad, neu fod y rhain yn rhan bwysig o'u ffordd o fyw.
- Y ffurfiau mwyaf cyffredin o gategoreiddio marwolaeth oedd achosion naturiol, gorddos damweiniol a gorddos damweiniol (tri pherson ym mhob categori). Hunan-achoswyd dau, honnir bod un yn llofruddiaeth ac nid yw dosbarthiad un farwolaeth yn hysbys ar hyn o bryd.

Roedd un digwyddiad yn cynnwys

defnyddio grym:

- Cysylltwyd â'r heddlu gydag adroddiadau o bryder am ddyn. Adroddodd swyddogion eu bod yn credu ei fod yn dioddef o anhwylder ymddygiad aciwt a gofynnwyd am ambiwlans. Daliodd y swyddogion afael ym mreichiau'r dyn ac wrth iddynt wneud hynny, llithrodd y dyn yn raddol i lawr rhai grisiau i'r llawr. Pan oedd ar y llawr, penderfynodd swyddog fod angen atal y dyn ymhellach. Cafodd ei roi mewn gefynnau, yna ei orwedd ar ei ochr a chafodd ei goesau eu hatal. Ychydig yn ddiweddarach, defnyddiwyd cyfyngiadau coes hefyd. Gwnaed ceisiadau pellach i'r gwasanaeth ambiwlans fynychu ar frys. Wrth aros am yr ambiwlans, tynnwyd y rhwystrau coes. Cyrhaeddodd ambiwlans a chludwyd y dyn i'r ysbyty, lle bu farw dridiau'n ddiweddarach. Disgwylir achos ei farwolaeth.

Roedd deuddeg marwolaeth yn ymwneud â phryder ynghylch risg person o **hunan-niweidio, risg hunanladdiad, neu ei iechyd meddwl**. Mewn achosion o'r fath, ni chaiff y person ei riportio na'i ystyried ar goll - fel arfer caiff y pryderon eu codi gyda'r heddlu gan drydydd parti,

ynghylch person sydd â phryderon iechyd meddwl hysbys. Er enghraifft, efallai bod y person wedi methu â mynychu apwyntiad neu wiriad lles, neu eu bod wedi dangos arwyddion o fod mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad. O'r rhain:

- Roedd deg o bobl yn ddynion a dau yn fenywod.
- Roedd wyth o bobl yn Wyn, dau yn Asiaidd ac roedd un person o ethnigrwydd cymysg. Mae ethnigrwydd un person yn anhysbys ar hyn o bryd.
- Roedd oedrannau'r bobl yn amrywio o 22 i 68. Roedd y mwyafrif rhwng 41 a 50 oed (pump o bobl). Yr oedran cyfartalog oedd 41.
- Y dosbarthiad marwolaeth mwyaf cyffredin oedd hunan-achosedig (wyth o bobl). Bu farw tri o bobl o ganlyniad i orddos damweiniol. Roedd un farwolaeth yn gysylltiedig ag ataliaeth.
